# bwyd TEG

## LLEOEDD BWYD CYNALIADWY

**Fframwaith** ar gyfer **Gweithredu** ar **Gynhwysiant** a **Chynrychiolaeth**


**Strategaeth a ddatblygwyd ar y cyd**

**Prif awdur:**

Ben Messer – Food Matters

Arweinydd Ymgysylltu, Cyfranogi a Chynrychiolaeth Lleoedd Bwyd Cynaliadwy



Medi 2025

## Bwyd TEG

## Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Gynhwysiant a Chynrychiolaeth

---

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Crynodeb | |
| Diben | 1 |
| Cyd-destun | 1 |
| Egwyddorion | 3 |
| Dull | 5 |
| Ffocws | 6 |
| Strwythur | 9 |
| A. Diwylliant | 10 |
| B. Ymarfer | 11 |
| C. Pobl | 12 |
| Camau gweithredu'r Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy | 13 |
| Atodiad 1 – Y broses gyd-ddatblygu | 16 |
| Atodiad 2 – Sesiwn Wrando i Bobl Ifanc | 18 |
| Atodiad 3 – Paneli arbenigwyr | 20 |
| Atodiad 4 – Rhai diffiniadau ymarferol | 22 |

LLEOEDD BWYD CYNALIADWY

# **Bwyd TEG: Fframwaith** ar gyfer **Gweithredu** ar **Gynhwysiant** a **Chynrychiolaeth**

## Diben

**Datblygu systemau bwyd teg a gwydn drwy ymgorffori tegwch, atebolrwydd a chynrychiolaeth mewn partneriaethau bwyd lleol**

## Y cyd-destun

- Dull seiliedig ar le
- Gwrth-hiliol ac anwahaniaethol
- Myfyrio ar REDI for Change ac adeiladu arno
- Cydnabod ffurfiau lluosog o wahaniaethu
- Sicrhau bod partneriaethau bwyd lleol yn adlewyrchu eu cymunedau.
- Wedi'u datblygu gyda mewnbwn gan bartneriaethau lleol.
- Darparu canllawiau, offer a strwythurau, ond wedi'u teilwra'n lleol.

## Ffocws

**1. Cymunedau hil leiafrifiedig**

**2. Pobl ifanc (14–25)**

**3. Cartrefi incwm isel**

**4. Ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd**

## Strwythur

**A. Diwylliant** **Meithrin cyd-ddealltwriaeth, dysgu ac atebolrwydd**

**B. Ymarfer** **Datblygu ffyrdd cynhwysol o weithio.**

**C. Pobl** **Sicrhau bod cyfranogiad yn adlewyrchu amrywiaeth.**

## Gweithredu

- Bydd partneriaethau bwyd yn creu eu Cynlluniau Gweithredu Bwyd TEG eu hunain
- Bydd Paneli Arbenigol yn arwain ac yn dwyn Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i gyfrif.
- Cymorth gan y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy drwy:
  hyfforddiant, adnoddau, codau ymarfer, meini prawf dyfarnu, offeryn cynllunio gweithredu, ac ymgyrchoedd cyfathrebu.

## Diben

- **Cydnabod bod cynrychiolaeth a chyfiawnder yn hanfodol ar gyfer creu systemau bwyd teg a gwydn.**
- **Cydnabod ei bod yn rhaid i bartneriaethau bwyd adlewyrchu amrywiaeth lawn eu cymunedau, gan sicrhau bod lleisiau pawb yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt.**
- **Sicrhau bod tegwch ac atebolrwydd yn rhan annatod o waith partneriaethau bwyd lleol, fel bod systemau bwyd yn cael eu llunio gan bawb ar gyfer pawb.**

## Y cyd-destun

**Fel rhaglen a rhwydwaith, rydym wedi ymrwymo i fod yn effro i i wahaniaethu, tangynrychiolaeth ac anghyfiawnder yn ein gwaith, a hynny mewn ffordd bwrpasol a rhagweithiol.**

### Dull seiliedig ar le

Mae dull seiliedig ar le Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau bwyd lleol adlewyrchu a chynrychioli eu cymunedau o ddifrif, gan sicrhau bod unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan mewn penderfyniadau am y system fwyd, dysgu amdanynt, neu gyfrannu atynt, yn gallu gwneud hynny. Er mwyn sicrhau hyn, rhaid i bartneriaethau bwyd lleol, eu haelodau a'u harweinwyr, fod yn gynhwysol mewn ffordd ystyrlon, rhaid iddynt fod yn eang o ran eu hamrywiaeth a chanolbwyntio'n fwriadol ar gyfiawnder.

Mae cyflawni hyn yn gofyn am fyfyrio ar y **diwylliant**, yr **arferion**, a'r **bobl** o fewn ein sefydliadau, a datblygu strategaethau a dulliau gweithredu sy'n ein helpu i fod yn fwy amrywiol, teg a chynhwysol.

### Gwahaniaethu

Rydym yn cydnabod, oni bai ein bod yn cydnabod y mater ac yn ymdrin ag ef, fod ein gwaith mewn perygl o adlewyrchu a pharhau â hiliaeth a gwahaniaethu systemig yn erbyn pobl â nodweddion gwarchodedig eraill lle mae hynny'n bodoli yn y DU.  Rydym yn cydnabod ac yn ymateb i hyn drwy ymdrechu i fod yn **sefydliadau gwrth-hiliol ac anwahaniaethol**.

Credwn y dylai pob rhanddeiliad yn y system fwyd gael llais, cyfle cyfartal i gymryd rhan, a dylanwad ar brosesau gwneud penderfyniadau. **Mae Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ymrwymedig i wneud penderfyniadau cynhwysol a theg yn ein rhaglen ac yn rhwydwaith o bartneriaethau bwyd ein haelodau** i sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu hystyried, gan arwain at system fwyd decach a mwy cyfartal i bawb. Mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ar **hygyrchedd**, gan sicrhau nad oes neb yn wynebu rhwystrau i gyfranogiad yn seiliedig ar anabledd na heriau yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig eraill.

### Gwrth-hiliaeth

Mae **Bwyd TEG** yn cael ei lywio gan y gwaith gwrth-hiliaeth rydym eisoes wedi'i gyflawni, ac mae'n myfyrio ar hynny ac yn adeiladu arno sef: **REDI for Change**, **offeryn adolygu REDI** a'r **strategaeth gwrth-hiliaeth**.

Rydym yn cydnabod bod hil yn dylanwadu'n sylweddol ar brofiadau pobl o fewn system fwyd y DU, yn amrywio o fynediad at fwyd a gwaith yn y sector bwyd i gynnwys pobl yn y gwaith o ddatblygu strategaeth fwyd. Felly, mae mynd i'r afael â diwylliant ac ymarfer ar hil yn hanfodol i sicrhau bod cynrychiolaeth a chyfiawnder wedi'u hymgorffori yn y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a gwaith craidd partneriaethau bwyd lleol.

Dylem hefyd gydnabod bod hyn wedi'i wreiddio yn ein gorffennol gwladychol – gwreiddiau hanesyddol gwahaniaethu, gormes ac ymyleiddio systemig – a bod yr atebion yn aml yn canolbwyntio ar heriau'r presennol heb ystyried yr annhegwch systemig a'r gormes hanesyddol sy'n sail iddo (gweler: **The Sankofa Report**).

### System fwyd deg a chynhwysol

Er mwyn bod yn wirioneddol gynrychioliadol, cynhwysol a theg, rhaid i ni gydnabod bod sawl math o wahaniaethu a gormes yn bodoli, y tu hwnt i hil, a bod y ffactorau hyn hefyd yn gallu effeithio ar hygyrchedd partneriaethau bwyd a chyfranogiad ynddynt.

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010 Llywodraeth y DU** yn amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu yn seiliedig ar naw nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

Rhaid ystyried rhwystrau fel addysg ac allgau ariannol hefyd wrth feithrin cyfranogiad cynhwysol ac rydym yn cydnabod bod pobl yn profi gwahaniaethu mewn gwahanol ffyrdd sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd yn seiliedig ar agweddau lluosog ar eu hunaniaeth.

Rydym hefyd yn cydnabod bod systemau bwyd lleol, cenedlaethol a byd-eang ar hyn o bryd yn systemau anghyfiawn sydd wedi torri. Mae angen i'n gwaith ar gynrychiolaeth a chyfiawnder gydnabod hyn drwy nodi'r ffactorau strwythurol a systemig sy'n atal cyfiawnder rhag cael ei wireddu yn y mannau lle rydym yn gweithio, gan gynnwys gwladychiaeth, cyfalafiaeth, hiliaeth a phatriarchaeth.

### 3 dimensiwn i gyfiawnder mewn gwaith ar systemau bwyd

Mae trafodaeth ar drawsnewid systemau bwyd yn cydnabod bod **3 dimensiwn allweddol** i'r cysyniad o gyfiawnder: mae cyfiawnder dosbarthol yn canolbwyntio ar ddyrannu adnoddau a buddion yn deg, mae cyfiawnder gweithdrefnol yn pwysleisio prosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol, ac mae cyfiawnder cydnabyddol yn sicrhau bod safbwyntiau a gwerthoedd diwylliannol amrywiol yn cael eu cydnabod a'u parchu. (gweler: **Just transition principles and criteria for food systems and beyond**).

Rydym yn cydnabod y 3 dimensiwn hyn i'r cysyniad o gyfiawnder, rydym wedi'u hymgorffori yn Bwyd TEG, ac yn annog partneriaethau bwyd lleol i'w hystyried fel cysyniadau hanfodol wrth gyflawni system fwyd deg a chynaliadwy.

Disgrifir proses gyd-ddatblygu Bwyd TEG yn **Atodiad 1**

---

## Egwyddorion

### Cynrychiolaeth

Dim ond pan fyddwn yn gwrando ar farn y gymuned gyfan ac yn ei deall y gall newid go iawn ac ystyrlon ddigwydd – yn enwedig y rhai sydd wedi'u hymyleiddio, y rhai y mae eu lleisiau'n cael eu clywed yn llai aml a'r rhai y mae eu profiad yn cael ei ddiystyru.

### Cyfiawnder

Dim ond os yw'n cynnwys profiadau amrywiol, pan fydd cymunedau sydd wedi'u hymyleiddio yn siarad drostynt eu hunain, y gall ein system fwyd fod yn deg - er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cynyddol yn ein system fwyd, mae angen canolbwyntio ar sicrhau mwy o gyfiawnder.

### Tegwch

Mae ymyleiddio ac anfantais mewn cymdeithas yn dylanwadu ar bwy sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac wedi'i allgáu o waith systemau bwyd – yn benodol, mae'n cael effaith anghymesur ar gymunedau mwyafrif byd-eang: y rhai sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf yw'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan annhegwch ac anghyfiawnder.

### Gwrth-hiliaeth (gweler yr adran **Cyd-destun**, uchod)

Mae hil yn dylanwadu'n sylweddol ar brofiadau pobl o fewn system fwyd y DU – mae mynd i'r afael â diwylliant ac ymarfer mewn perthynas â hil yn hanfodol i sicrhau bod cynrychiolaeth a chyfiawnder wedi'u hymgorffori yn y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ac yng ngwaith craidd partneriaethau bwyd lleol.

### Cyfrifoldeb

Arweinwyr partneriaethau bwyd lleol a Lleoedd Bwyd Cynaliadwy sy'n gyfrifol am gefnogi, dyrchafu a chynnwys lleisiau grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd wedi'u hymyleiddio – gan sicrhau nad yw'r baich yn cael ei roi ar

grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai sydd wedi'u hymyleiddio i wneud y gwaith caled.

## Dylanwad

Y rhai sy'n dioddef yr anfantais fwyaf mewn cymdeithas sydd â'r lleiaf o ddylanwad o ran cyfrannu at, llunio a thrawsnewid y system fwyd o'u cwmpas – mae hyn yn gofyn am ymdrech i archwilio ffyrdd o wella eu cyfranogiad a'u hymgysylltiad â phartneriaethau bwyd.

## Profiad

Mae'r rhai sydd â phrofiad o fod heb gynrychiolaeth ddigonol ac o gael eu trin yn annheg mewn cymdeithas ac yn y system fwyd yn hanfodol i wella ymgysylltiad a chyfranogiad – gwrando ar y rhwystrau i'w hymgysylltiad a'u cyfranogiad, eu deall a mynd i'r afael â nhw.

## Gorgyffwrdd

Mae pobl yn profi gwahaniaethu mewn gwahanol ffyrdd, sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd yn seiliedig ar agweddau lluosog ar eu hunaniaeth ac yn cael ei waethygu gan yr agweddau hynny – e.e. gall profiad bywyd un Person Du o Liw fod yn wahanol iawn i brofiad bywyd pobl eraill yn seiliedig ar ffactorau fel rhywedd, oedran, neu gefndir economaidd-gymdeithasol.

## Ymrwymiad

I lawer, mae cynrychiolaeth a chyfiawnder yn faes sy'n cael ei esgeuluso mewn perthynas â gweithredu ar y system fwyd – mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ymrwymo i fynd i'r afael â hunanfodlonrwydd, diffyg ymwybyddiaeth, ac ymddieithrio o brofiad bywyd y rhai sy'n cael eu hymyleiddio, eu gorthrymu neu'r rhai y gwahaniaethir yn eu herbyn.

## Hygyrchedd

Dylai ymgysylltu a chymryd rhan mewn gweithgareddau, prosesau a phenderfyniadau partneriaethau bwyd fod yn hygyrch i bawb – ni ddylai neb wynebu rhwystrau i gyfranogi yn seiliedig ar anabledd neu nodweddion gwarchodedig eraill.

## Gwahaniaeth

Gall gwahaniaeth barn neu anghytundeb ynghylch yr atebion arwain at gamau cadarnhaol a chreu mannau mwy cynrychioliadol, yn hytrach na bod angen eu rheoli neu eu dileu – rhaid dysgu sut i gofleidio gwahanol safbwyntiau sy'n deillio'n naturiol o gynnwys lleisiau amrywiol.

## Atebolrwydd

Cyfrifoldeb Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a phartneriaethau bwyd lleol yw ymgorffori, mynegi a gweithio tuag at wella cynrychiolaeth a chyfiawnder yn ein gwaith ar systemau bwyd – gan ddwyn ein hunain a'n gilydd i gyfrif am feincnodi, gwneud newidiadau a sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel i herio prosesau ac ymddygiadau.

## Dull Gweithredu

Rhaid i ddull Lleoedd Bwyd Cynaliadwy o ymdrin â chynrychiolaeth a chyfiawnder fod yn berthnasol, yn realistig ac yn ymarferol i bartneriaethau bwyd lleol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ei fabwysiadu.  Er mwyn cyflawni hyn, rhaid iddo gydnabod yr amrywiaeth eang a'r gwahaniaethau yng nghapasiti ac adnoddau partneriaethau bwyd lleol – y 120 a mwy o aelodau o rwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

Mae angen i ddull gweithredu Lleoedd Bwyd Cynaliadwy fod yn **gadarn, yn glir** ac yn **effeithiol** yn ogystal â bod yn **realistig, yn briodol ac yn hyblyg**. Er mwyn sicrhau hyn rydym wedi ymrwymo i ddull cyfranogol parhaus – cyd-ddatblygu Bwyd TEG, yn seiliedig ar safbwyntiau a meddylfryd tîm y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a phartneriaethau bwyd lleol mewn gwahanol leoedd ledled y DU.

Mae Bwyd TEG yn gwahaniaethu rhwng:

> **Y Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy** – sefydlu fframwaith strwythuredig sy'n darparu canllawiau, offer a chefnogaeth i bartneriaethau bwyd er mwyn gwella cynrychiolaeth a chyfiawnder yn eu gwaith. Mae'r adrannau canlynol ar **Ffocws** a **Strwythur** yn ymwneud â'r **Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy** a gwaith partneriaethau bwyd lleol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.
>
> **Y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy** – cytuno ar gamau gweithredu, i'w cyflawni gan bartneriaid craidd y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, i hwyluso a chefnogi partneriaethau bwyd lleol. Mae **camau gweithredu allweddol y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy** a nodwyd hyd yn hyn wedi'u cynnwys yn adran olaf y fframwaith hwn.

## Ffocws

Mae profiad partneriaethau bwyd lleol ledled y DU wedi nodi'n gyson **4 cymuned a grŵp allweddol sydd wedi'u hymyleiddio a heb gynrychiolaeth ddigonol** (wedi'u nodi a'u pwysleisio gan nifer sylweddol o gyfranogwyr yn y Sesiynau Gwrando ar gyfer Cyd-ddatblygu Strategaeth).

Y 4 grŵp/cymuned allweddol yw **ffocws craidd Bwyd TEG**, sef:

### 1. Cymunedau hil leiafrifiedig

- Rhaid i unrhyw waith ar Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant / Cynrychiolaeth a Chyfiawnder ddechrau gydag ymrwymiad bwriadol i wrth-hiliaeth
- Mae Lleoedd Bwyd Cynaliadwy wedi mabwysiadu'r ethos hwn drwy REDI for Change, drwy ddatblygu'r Strategaeth Gwrth-hiliaeth a thrwy ymwreiddio gwrth-hiliaeth yn ein rhaglen
- Rhaid i'r strategaeth gyffredinol ar gynrychiolaeth a chyfiawnder gynnwys a chryfhau REDI for Change fel ffocws penodol ac osgoi ei ehangu i gwmpasu nodweddion gwarchodedig eraill – gallai hyn beri risg o wanhau'r ffocws ar wrth-hiliaeth

### 2. Pobl ifanc

- Mae Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn cydnabod nad oes gan bobl ifanc – a ddiffinnir yma fel y rhai rhwng 14 a 25 oed – gynrychiolaeth ddigonol, nad yw eu safbwyntiau’n cael eu clywed ac nad yw strwythurau a phrosesau partneriaethau bwyd yn aml yn hygyrch i bobl ifanc
- Mae hyn yn gofyn am ddull gweithredu penodol ac ymroddedig sy'n aml y tu hwnt i gapasiti partneriaethau bwyd, felly mae cydweithio â sefydliadau eraill sy'n bodoli eisoes yn bwysig
- Mae **Sesiwn Wrando i Bobl Ifanc** yn dangos sut y gallai panel/fforwm cyfranogol, wedi'i hwyluso ar draws y DU, helpu i archwilio materion a rhwystrau penodol a brofir gan grwpiau a chymunedau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (gweler **Atodiad 2**)

### 3. Pobl o aelwydydd incwm isel

- Mae partneriaethau bwyd yn ymgysylltu â sefydliadau sy'n cefnogi pobl â diffyg diogeled bwyd, sy'n profi caledi ariannol ac sy'n wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at fwyd
- Mae ymgysylltu â grwpiau o'r fath yn hynod bwysig a dylid gwrando ar eu lleisiau a'u profiadau bywyd a'u hymgorffori yn y gwaith o ddatblygu strategaethau bwyd leol
- Dylid canolbwyntio ar gydweithio â sefydliadau cynrychioliadol a, lle bo angen, cynnull grwpiau ffocws ar gyfer y rhai sydd â phrofiad personol o ddiffyg diogeledd bwyd.

### 4. Ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd – gan gynnwys pysgodfeydd

- Yn aml, nid oes gan y grwpiau hyn gynrychiolaeth ddigonol ac maent wedi'u hymyleiddio mewn partneriaethau bwyd lleol am wahanol resymau.
- Mae ymgysylltu â ffermwyr yn hynod heriol oherwydd e.e. cyfyngiadau amser, lleoliad a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd
- Yn aml, mae eu cynrychiolaeth yn dibynnu ar gysylltiadau personol y gellir adeiladu arnynt a chydweithio â chyrff a sefydliadau cynrychioliadol presennol.

Mae hyn yn cadarnhau canfyddiadau **Arolwg Lleoedd Bwyd Cynaliadwy 2025** sy'n amlygu diffyg amrywiaeth o ran oedran, diffyg amrywiaeth ethnig, a diffyg profiad o galedi ariannol ymysg grwpiau llywio partneriaethau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

Bydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn sefydlu **4 Panel Arbenigol**, yn darparu adnoddau iddynt ac yn eu hwyluso. Bydd y paneli'n cynrychioli'r 4 cymuned/grŵp allweddol ac yn gweithio ar lefel genedlaethol. Bydd y paneli hyn yn cynnwys lleisiau arbenigol, sefydliadau a grwpiau ymgyrchu o bob cwr o'r DU a all fod yn 'gyfeillion beirniadol' i'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, gan ein harwain a'n dwyn i gyfrif o ran ein gwaith ar gynrychiolaeth a chyfiawnder. Caiff hyn ei egluro yn **Atodiad 3 – Paneli Arbenigol**.

Nododd partneriaethau bwyd lleol hefyd grwpiau a chymunedau penodol eraill yr oeddent yn eu hystyried yn rhai nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn eu gwaith am wahanol resymau (nodwyd y rhain gan nifer bach o gyfranogwyr yn y Sesiynau Gwrando ar gyfer Cyd-ddatblygu):

- Pobl ag **anabledd corfforol** ble mae angen camau i wella hygyrchedd
- Y cymunedau **LHDTC+**
- Cymunedau **mudwyr**
- **Pobl hŷn**
- Pobl sy'n **wael eu hiechyd**
- **Busnesau bwyd** bach a chanolig (BBaChau)

Mae grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn wynebu amrywiaeth o rwystrau gwahanol i ymgysylltu â gwaith partneriaethau bwyd lleol a chymryd rhan yng ngwaith y partneriaethau hynny, a bydd y rhain yn amrywio o le i le. Mae **2 ddull craidd** yn hanfodol i fynd i'r afael ag ymyleiddio a thangynrychiolaeth:

**Archwilio a nodi sefydliadau neu rwydweithiau sydd eisoes yn ymgysylltu â'r grwpiau hyn ac yn eu cynrychioli**

**Gweithio gyda'r partneriaid/cyfeillion beirniadol hyn i ddatblygu'r dull gorau o gynrychioli eu persbectif mewn partneriaethau bwyd**

Mewn rhai amgylchiadau a chyd-destunau lleol penodol, rydym yn cydnabod y gall ymdrechion i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth ac ymyleiddio hefyd gynnwys y grwpiau a'r cymunedau canlynol (dim ond 1 neu 2 o gyfranogwyr yn y Sesiynau Gwrando ar gyfer Cyd-ddatblygu a nododd y rhain):

- Mamau sengl
- Gofalwyr
- Cogyddion
- Y rhai sy'n brin o amser
- Y rhai sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol
- Pobl ag addysg gyfyngedig
- Y rhai nad ydynt yn gallu siarad Saesneg
- Pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol
- Dynion
- Pobl y mae eu credoau crefyddol yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn rhaglenni a ariennir gan elw o gamblo (e.e. y Loteri Genedlaethol)

## Strwythur

Mae **Bwyd TEG** yn cael ei lywio gan y gwaith gwrth-hiliaeth rydym eisoes wedi'i wneud, ac yn myfyrio ac yn adeiladu ar y gwaith hwnnw.

O ganlyniad, mae'r fframwaith yn mabwysiadu'r un strwythur thematig â'r dull REDI gyda ffocws clir ar **3 thema**:

| | |
|---|---|
| **A. Diwylliant** | **Ymgorffori diwylliant sefydliadol o gyd-ddealltwriaeth, dysgu parhaus ac atebolrwydd mewn perthynas â chynrychiolaeth a chyfiawnder** |
| **B. Ymarfer** | **Sefydlu dulliau ymarferol o weithio sy'n arwain at well cynrychiolaeth a chyfiawnder** |
| **C. Pobl** | **Dangos ymrwymiad i well cynrychiolaeth a chyfiawnder drwy'r bobl sy'n cymryd rhan yn ein gwaith** |

- Y bwriad yw i'r strwythur hwn a'r pynciau o dan bob thema ddarparu'r fframwaith i bartneriaethau bwyd lleol gymryd camau'n ymwneud â chynrychiolaeth a chyfiawnder.

- Mae'r strwythur a'r fframwaith yn fwriadol hyblyg, gan ganiatáu i bob partneriaeth bwyd lleol archwilio sut i ymateb i'r pynciau a chymryd camau arnynt yn unol â'u cyd-destun, eu capasiti a'u hadnoddau.

- Yn dilyn lansio Bwyd TEG, fe wnaeth Tîm y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ynghyd â'r Gweithgor Cyd-ddatblygu, gyda chefnogaeth ac arweiniad y Paneli Arbenigol, archwilio sut y gall partneriaethau bwyd lleol ddefnyddio'r fframwaith a'r strwythur hwn i ddatblygu eu Cynlluniau Gweithredu Bwyd TEG lleol eu hunain (gan ddefnyddio **Cynllunydd Camau Gweithredu Bwyd TEG**).

- Disgwylir hefyd y bydd yr **EGWYDDORION** a'r **FFOCWS** penodol sydd wedi dod i'r amlwg o'r Sesiynau Gwrando a'r Gweithdai Cyd-ddatblygu yn helpu i lunio a fframio strategaethau lleol.

- Bydd hyn yn cael ei ategu gan gamau gweithredu ychwanegol y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy gan gynnwys: **hyfforddiant** ledled y rhwydwaith, datblygu **cod ymarfer**, cyflwyno dimensiwn newydd o Gynrychiolaeth a Chyfiawnder i'r **Gwobrau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy** a **meini prawf aelodaeth Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**, ac **ymgyrch gyfathrebu** (gweler **Camau Gweithredu'r Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**, isod).

## A. Diwylliant

**Ymgorffori diwylliant sefydliadol o gyd-ddealltwriaeth, dysgu parhaus ac atebolrwydd mewn perthynas â chynrychiolaeth a chyfiawnder**

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedaeth** | Creu amgylchedd gwaith sy'n annog trafodaeth agored a gonest – **awyrgylch o ymddiriedaeth a diogelwch wedi'i ddatblygu mewn ffordd amyneddgar** |
| **Gwrando** | Osgoi gwneud rhagdybiaethau am bobl a chymunedau sydd â phrofiad gwahanol i'ch un chi – **gofyn am eu persbectif a'u barn**<br><br>Sefydlu **diwylliant gwrando** yn eich partneriaeth/sefydliad fel bod lleisiau gwahanol yn cael eu croesawu a'u clywed |
| **Urddas** | Dylai cymorth bwyd a chymorth arall sy'n gysylltiedig â bwyd a roddir i unigolion a chymunedau osgoi stigma a **thrin pobl ag urddas** – gan gynnwys y ffordd y caiff iaith ei defnyddio |
| **Effaith** | Sicrhau bod **ymrwymiad gwirioneddol gan y sefydliad** i newid – bod y strategaeth a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd wedi'u tangynrychioli fwyaf |
| **Egwyddorion** | **Cyd-ddatblygu set glir o egwyddorion** ynghylch cynrychiolaeth a chyfiawnder a'u defnyddio i gyd-ddatblygu a chyfleu **cod ymddygiad** (ffyrdd o ymddwyn) ar gyfer eich sefydliad ac ar gyfer y sefydliadau a'r grwpiau hynny yr ydych yn cydweithio â nhw |
| **Polisïau** | Datblygu **datganiad o ymrwymiad** a **pholisïau, prosesau a strategaethau sefydliadol cryf ar Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant** |
| **Camau diogelu** | Sicrhau bod **protocol diogelu** clir ar waith sy'n cynnwys ymddygiad gwahaniaethol a hiliaeth ac sy'n amlinellu gweithdrefn gwyno glir |

## B. Ymarfer

**Sefydlu dulliau ymarferol o weithio sy'n arwain at well cynrychiolaeth a chyfiawnder**

| | |
|---|---|
| **Cydgynhyrchu** | Cynnwys lleisiau a safbwyntiau grŵp amrywiol mewn mentrau a phrosiectau o'r dechrau hyd y diwedd, o'r camau cynllunio cychwynnol i'r camau gweithredu, monitro a gwerthuso<br><br>Cydnabod arbenigedd a phrofiad mewn sefydliadau, prosiectau, cymunedau a grwpiau sy'n gysylltiedig â phartneriaethau bwyd |
| **Cydweithio** | **Peidio ag ailddyfeisio'r olwyn** – ymchwilio i grwpiau/sefydliadau presennol sy'n cynrychioli grwpiau a chymunedau sydd wedi'u hymyleiddio a heb gynrychiolaeth ddigonol, ac ymgysylltu â nhw<br><br>**Canfod 'cyfeillion beirniadol'** i roi cyngor a chyfrannu at feddwl yn strategol a chyflawni gweithgareddau partneriaeth bwyd lleol |
| **Cyfle** | Creu a hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu â phartneriaethau bwyd lleol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gymunedau a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol – **mae angen i bobl wybod sut y gallant gymryd rhan** |
| **Hygyrchedd** | Sicrhau bod ymgysylltu a chyfranogi mewn gweithgareddau, prosesau a phenderfyniadau partneriaethau bwyd fod yn **hygyrch i bawb** – ni ddylai neb wynebu rhwystrau i gyfranogi yn seiliedig ar anabledd neu nodweddion gwarchodedig eraill |
| **Cyflwyno** | Sicrhau bod partneriaethau bwyd yn cyflwyno ac yn dangos eu hamrywiaeth drwy eu gwefannau, eu deunyddiau cyfathrebu a'u cyfryngau cymdeithasol |
| **Dyrchafu** | **Dyrchafu a rhoi mwy o sylw i** leisiau grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio yn hytrach na siarad drostyn nhw, neu ar eu rhan. |
| **Iaith** | Osgoi defnyddio iaith wahaniaethol neu fframio'r gwaith hwn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ymgyrchwyr. |

## C. Pobl

**Dangos ymrwymiad i well cynrychiolaeth a chyfiawnder drwy'r bobl sy'n cymryd rhan yn ein gwaith**

| | |
|---|---|
| **Amrywiaeth** | Datblygu **prosesau recriwtio a chyflogaeth** sy'n annog ac yn hyrwyddo amrywiaeth yn y bartneriaeth a'i sefydliadau partner<br><br>Cefnogi a hyrwyddo amrywiaeth a chynrychiolaeth ymysg **sefydliadau partner a chydweithredwyr** |
| **Cynrychiolaeth** | Sicrhau bod eich sefydliad **yn cynrychioli eich lle** – nodi unrhyw rwystrau sy'n atal cymunedau a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol rhag ymgysylltu a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny |
| **Cyfranogiad** | Annog, hyrwyddo a chefnogi **cyfranogiad grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd wedi'u hymyleiddio** gan sicrhau bod y berthynas yn ddilys, yn barhaus, yn ymatebol ac nid yn echdynnol |
| **Profiad** | Cynnull grwpiau â **phrofiad bywyd o dangynrychiolaeth ac anghyfiawnder**, yn enwedig os nad yw grwpiau o'r fath yn bodoli eisoes |
| **Cydnabyddiaeth** | **Gwerthfawrogi a chydnabod** yr arbenigedd, yr egni a'r amser a roddir gan bobl drwy dalu treuliau, ffioedd a chyflogau priodol |
| **Arweinyddiaeth** | Anelu at sicrhau amrywiaeth ymysg **arweinwyr partneriaethau bwyd** a sefydliadau, a recriwtio pobl yn unol â hynny |
| **Dathlu** | Dathlu gwerth cadarnhaol diwylliannau bwyd, systemau bwyd a bwyd amrywiol mewn cymunedau amrywiol |

## Camau gweithredu'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

Camau gweithredu i'w cyflawni gan bartneriaid craidd y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy – Cymdeithas y Pridd, Sustain, Food Matters, Synnwyr Bwyd Cymru, Nourish Scotland – i hwyluso a chefnogi partneriaethau bwyd lleol.

1. **Cysylltu REDI for Change ag ethos cyffredinol Bwyd TEG**

   Osgoi ehangu REDI for Change i gwmpasu nodweddion gwarchodedig eraill gan y byddai hyn yn peryglu gwanhau'r ffocws pwysig ar wrth-hiliaeth

2. **Cyd-ddatblygu set glir o Egwyddorion ar Gynrychiolaeth a Chyfiawnder**

   Nodi'n glir yr hyn y mae Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn ei gredu mewn perthynas â Chynrychiolaeth a Chyfiawnder

3. **Recriwtio Paneli Arbenigol ar gyfer y 4 grŵp allweddol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol: pobl sydd wedi'u lleiafrifo'n hiliol, pobl ifanc, pobl o gartrefi incwm isel, ffermwyr/cynhyrchwyr bwyd**

   Archwilio'r potensial i'r Grŵp Gwaith Gwrth-hiliaeth weithredu fel Panel ar gyfer pobl sydd wedi'u lleiafrifo'n hiliol, ac i'r cyfranogwyr yn y Sesiwn Wrando i Bobl Ifanc wneud yr un peth ar gyfer Pobl Ifanc. Ymchwilio i'r cyfranogwyr yn y 2 Banel Arbenigol sy'n weddill.

4. **Gwirio fod Bwyd TEG yn Gwneud Synnwyr a'i Lansio**

   Rhannu Bwyd TEG gydag aelodau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy mewn Lansiad Strategaeth ar-lein a gwirio ei fod yn gwneud synnwyr.

5. **Cyd-ddatblygu Cod Ymarfer clir ar Gynrychiolaeth a Chyfiawnder**

   Sefydlu Cod Ymarfer, yn seiliedig ar **Egwyddorion** y disgwylir i'r Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a Phartneriaethau Bwyd lleol a'u partneriaid gydymffurfio â nhw

6. **Cyd-ddatblygu dimensiwn Bwyd TEG newydd i fframwaith y gwobrau – SEREN Bwyd TEG**

   Gwobrwyo arfer gorau mewn Cynrychiolaeth a Chyfiawnder (gan gynnwys Gwrth-hiliaeth, ac Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant) gydag **SEREN bwyd TEG** ychwanegol ar lefelau efydd, arian neu aur

Meithrin balchder yn y dimensiwn gweithgarwch partneriaethau bwyd hwn – cyflawniad pendant i anelu ato, ei hyrwyddo a bod yn falch ohono

7. **Cyd-ddatblygu Offeryn newydd i greu Cynllun Gweithredu Bwyd TEG**

   Gweithio gyda Thîm Cynrychiolaeth a Chyfiawnder y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a'r Grŵp Cynrychiolaeth a Chyfiawnder i ddefnyddio Bwyd TEG fel sail i Offeryn i helpu partneriaethau bwyd lleol ddatblygu eu Cynlluniau Gweithredu Bwyd TEG eu hunain.

8. **Plethu Cynrychiolaeth a Chyfiawnder ym mhob agwedd ar waith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy:**

   - Meini prawf **Aelodaeth** Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
   - Fframwaith **Gwobrau** Lleoedd Bwyd Cynaliadwy (gweler uchod)
   - **Adnoddau** yn y **Pecyn Cymorth** i Bartneriaethau Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
   - Ar draws pob un o **6 mater allweddol** Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
   - Mewn **Gwiriadau Iechyd/Gwiriadau Cynaliadwyedd** Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

9. **Ymgyrch gyfathrebu Bwyd TEG Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**

   Datblygu a chyflwyno Ymgyrch Gyfathrebu benodol sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo camau gweithredu i gyflawni'r fframwaith Bwyd TEG

10. **Thema ymgyrch Cynrychiolaeth a Chyfiawnder Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**

    Ystyried ymgyrch Lleoedd Bwyd Cynaliadwy/Sustain sy'n canolbwyntio ar Fwyd, Cynrychiolaeth a Chyfiawnder

11. **Meithrin ymwybyddiaeth a chapasiti drwy gynnig amrywiaeth o lwybrau hyfforddi**

    Nodi, datblygu a chyflwyno ystod o lwybrau hyfforddi sy'n ymateb i wahanol anghenion a galluoedd partneriaethau bwyd lleol, a cheisio cyllid ar gyfer hynny

**12. Modelu a rhannu arfer gorau**

Rhannu arferion da o'r Rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a modelu arfer gorau drwy roi lle canolog i Gynrychiolaeth a Chyfiawnder yn niwylliant, ymarfer a phobl partneriaid y Rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy eu hunain

**13. Datblygu cynghreiriau a phartneriaethau cydweithredol**

Cydnabod yr angen i gydweithio â grwpiau, sefydliadau a rhwydweithiau eraill sydd â mwy o arbenigedd a phrofiad penodol mewn gwaith yn ymwneud ag Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant/gwaith gwrth-hiliaeth

## Atodiad 1 – Y broses gyd-ddatblygu

Mae Bwyd TEG wedi'i gyd-ddatblygu gan bartneriaethau bwyd lleol a thîm y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy drwy gyfres o **Sesiynau Gwrando** ar hyd a lled y DU, **Gweithdai Cyd-ddatblygu** cyfranogol a chyfarfodydd **Gweithgor Cynrychiolaeth a Chyfiawnder y Tîm Lleoedd Bwyd Cynaliadwy**.

Mae allbynnau'r Sesiynau Gwrando wedi'u crynhoi yn y ddogfen hon gydag adrannau penodol wedi'u cyd-ddatblygu gan y cyfranogwyr yn y gweithdai.

**Sesiynau Gwrando – gwanwyn/haf 2025**

- Caerdydd – 1 Mai
- Leeds – 7 Mai
- Llundain – 12 Mai
- Ar-lein, ledled y DU – 22 Mai
- Belfast – 14 Mai
- Derry a Strabane – 24 Mehefin
- Ar-lein, pobl ifanc ledled y DU – 16 Gorffennaf
- Ar-lein, Yr Alban – 31 Gorffennaf

Gweithdai cyfranogol wedi'u hwyluso – gyda **chydlynwyr partneriaethau bwyd lleol a phartneriaid arbenigol** sy'n gysylltiedig â phartneriaethau o bob cwr o'r DU – yn ystyried ac yn trafod 3 chwestiwn allweddol:

1. *Pam mae Cynrychiolaeth a Chyfiawnder yn bwysig yn ein gwaith bwyd?*
2. *Sut beth yw Cynrychiolaeth a Chyfiawnder da?*
3. *Pa grwpiau/cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sy'n cael eu trin yn annheg?*

**Gweithdai Cyd-ddatblygu – diwedd haf 2025**

- Ar-lein, ledled y DU – 7 Awst
- Ar-lein, ledled y DU – 14 Awst

Sesiynau gweithdy cyfranogol ar-lein - gyda **gweithgor wedi'i recriwtio o'r Sesiynau Gwrando** - gwirio a chadarnhau allbynnau o'r Sesiynau Gwrando a rhoi cig am esgyrn y fframwaith wrth i bartneriaethau bwyd lleol rannu eu profiadau o'i ddefnyddio ag aelodau eraill o'r rhwydwaith.

**Cyfarfodydd Tîm Lleoedd Bwyd Cynaliadwy – gwanwyn/haf 2025**

- Cyfarfod 1 – 5 Chwef.
- Cyfarfod 2 – 26 Chwef.
- Cyfarfod 3 – 5 Meh.
- Cyfarfod 4 – 6 Awst


Cyfarfodydd ar-lein – gyda **chynrychiolwyr o 6 phartner y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy** – ystyried a chytuno ar y broses gyd-ddatblygu, trafod allbynnau'r sesiynau cyd-ddatblygu, a llunio'r fframwaith strategol.


## Delweddau o'r Sesiynau Gwrando yng Nghaerdydd, Leeds, Llundain ac ar-lein





Cyfranogwyr o Bartneriaethau Bwyd Cymru ar ddiwrnod cynnes o wanwyn yng Nghaerdydd – 1 Mai 2025







Cyfranogwyr y sesiwn yn Llundain yn swyddfeydd Sustain – 12 Mai 2025






Cyfranogwyr yn sesiwn Leeds – 7 Mai 2025





...a sgrin-lun o rai o'r cyfranogwyr yn defnyddio Google doc yn ystod y sesiwn ar-lein – 22 Mai 2025



## Atodiad 2 – Sesiwn Wrando i Bobl Ifanc

Nododd y Sesiynau Gwrando a gynrychiolwyd ledled y DU fod Pobl Ifanc yn grŵp pwysig, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac wedi'i ymyleiddio.  Mae Bwyd TEG yn cynnwys camau gweithredu i archwilio sut y gellir clywed lleisiau pobl ifanc, gweithredu arnynt a chynyddu eu cyfranogiad.

Mae'r canfyddiadau hyn yn adleisio'r argymhellion a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad **Barnardo's** a **The Co-op Group**: **Deeper roots, stronger futures**: *Unlocking the Potential of Food Partnerships with Young People, Gorffennaf 2025*. Roedd yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad yn cynnwys cynnal 6 grŵp ffocws gyda phobl ifanc 10-18 oed, sy'n ymwneud â gwasanaethau Barnardo's a'r Co-op ledled y DU, a sefydlu **Grŵp Cynghori Ieuenctid** yn cynnwys 13 o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed.

Yn ogystal â hynny, fe wnaeth y **Food Foundation** sefydlu panel **Llysgenhadon Bwyd Ifanc** fel rhan o'r ymgyrch genedlaethol **Hawl Plant i Fwyd** a oedd yn anelu at sicrhau mynediad at fwyd

Yn sgil ffurfio'r grwpiau hyn, crëwyd momentwm a chyfle i glywed safbwyntiau grŵp o bobl ifanc o bob cwr o'r DU ac i'w cynnwys wrth lunio'r fframwaith Bwyd TEG. I gyflawni hyn, cynhaliodd Food Matters weithdy cyfranogol ar-lein ar 16 Gorffennaf 2025, a fynychwyd gan 15 o gyfranogwyr o fewn y grŵp oedran 16 i 25 oed (ein diffiniad o Bobl Ifanc), a recriwtiwyd o'r ddau grŵp a ddisgrifiwyd uchod.

Roedd y Sesiwn Wrando yn seiliedig ar 4 cwestiwn allweddol:

1. *Beth mae 'bwyd da' yn ei olygu i chi?*
2. *Dyfodol bwyd cynaliadwy lle rydych chi'n byw... Sut olwg sydd ar hyn?*
3. *Faint o lais sydd gennych chi a phobl ifanc eraill o ran sut y gellir cyflawni hyn?*
4. *Beth yw'r ffordd orau i chi gael eich cynnwys ac i fwydo eich barn i'r broses?*

Roedd y sesiwn yn gymysgedd o drafodaeth grŵp cyfan wedi'i hwyluso, trafodaethau mewn grwpiau bach mewn ystafelloedd trafod a defnyddio Google doc., ac arolwg Mentimeter i fesur barn pawb a dogfennu eu hymatebion, eu syniadau a'r drafodaeth.

**Prif allbynnau:**

- Dangosodd y cyfranogwyr ddealltwriaeth ddatblygedig o'r cysyniad o 'fwyd cynaliadwy'.
- Fe wnaethant hefyd gydnabod a chytuno nad oes gan bobl ifanc gynrychiolaeth ddigonol mewn trafodaethau a chamau gweithredu'n ymwneud â'r system fwyd, yn lleol ac yn genedlaethol.
- Roedd awydd amlwg i leisiau Pobl Ifanc gael eu clywed ac i bobl ifanc gael llawer mwy o ddylanwad ar newid tuag at ddyfodol bwyd cynaliadwy, yn lleol ac yn genedlaethol.

**Camau gweithredu:**

- Archwilio a nodi ffyrdd y gall pobl ifanc gysylltu'n weithredol â Phartneriaethau Bwyd yn eu hardal leol.
- Sicrhau bod cyfleoedd lleol i bobl ifanc gymryd rhan yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo'n dda.
- Cynnal rhwydweithiau a chysylltiadau gweithredol gyda'r Panel Pobl Ifanc cenedlaethol hwn fel bod y gwaith hwn yn parhau a bod lleisiau pobl ifanc yn cael ei glywed ac y gweithredir arnynt ar lefel genedlaethol.

Mae'r Sesiwn Wrando gyda Phobl Ifanc yn dangos dull o wella cynrychiolaeth a chynhwysiant y gellid ei gymhwyso i grwpiau a chymunedau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r dull yn cydnabod na fydd gan bob partneriaeth bwyd lleol y capasiti, yr adnoddau a'r cysylltiadau lleol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth grwpiau penodol. Yn y sefyllfaoedd hyn, gallai panel arbenigol, ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, helpu i ddatblygu set o egwyddorion, dulliau gweithredu a gwell dealltwriaeth o safbwyntiau ac anghenion y grwpiau a'r cymunedau hyn.

Mae **Panel Arbenigol o Bobl Ifanc** - ar lefel ranbarthol neu genedlaethol - yn gam cyntaf tuag at greu diwylliant o wrando ac ymddiriedaeth gyda'r grŵp hwn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Gan weithio ar lefel genedlaethol, gall y panel helpu i ymchwilio i ddulliau dychmygus o ymgysylltu â phobl ifanc: mynd i ysgolion, campfeydd, clybiau ieuenctid, etc, a chysylltu ag egwyddorion cyd-gynhyrchu a chydweithio ar lefel leol.

## Atodiad 3 – Paneli arbenigol

Mae angen i Lleoedd Bwyd Cynaliadwy wrando ar gynrychiolwyr y 4 cymuned allweddol sydd wedi'u hymyleiddio ac sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a nodwyd gan bartneriaethau bwyd lleol, a chael eu harwain ganddynt. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn bwriadu sefydlu **4 Panel Arbenigol**, i gynrychioli'r 4 cymuned allweddol a gweithio ar lefel genedlaethol, a darparu adnoddau iddynt a'u hwyluso. Bydd y paneli hyn yn cynnwys lleisiau arbenigol, sefydliadau a grwpiau ymgyrchu o bob cwr o'r DU a all fod yn 'gyfeillion beirniadol' i Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, gan ein harwain a'n dwyn i gyfrif yn ein gwaith ar Gynrychiolaeth a Chyfiawnder.

**Cynnig:**

### 1. Cymunedau hil leiafrifiedig

Mae Bwyd TEG yn cydnabod gwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ar Wrth-hiliaeth a ragflaenodd ein ffocws ar Gynrychiolaeth a Chyfiawnder ehangach ac sy'n sail i hynny. Datblygodd y gwaith hwn yr ethos **REDI for Change** a'r **Pecyn Cymorth Adolygu REDI**, y **Strategaeth Gwrth-hiliaeth** a sefydlodd y **Grŵp Atebolrwydd Gwrth-hiliaeth**.

**Cynnig:** bod y **Grŵp Atebolrwydd Gwrth-hiliaeth** yn gweithredu fel Panel Arbenigol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ar gyfer Cymunedau Hil Leiafrifiedig. Gall hyn ddigwydd ar ôl i'r Strategaeth gael ei lansio.

### 2. Pobl Ifanc

Roedd y gwaith o gyd-ddatblygu Bwyd TEG yn cynnwys Sesiwn Wrando gyda phobl ifanc a recriwtiwyd o'r **Grŵp Cynghori Ieuenctid** (cyfranogwyr ym mhrosiect 'Deeper roots, stronger futures' Barnardo's a'r Co-op Group) a'r **Llysgenhadon Bwyd Ifanc** (a sefydlwyd gan y Food Foundation fel rhan o'r ymgyrch Hawl Plant i Fwyd). Mynegodd y cyfranogwyr yn sesiwn Pobl Ifanc Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ddiddordeb mewn parhau i gymryd rhan yng ngwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy sydd â'r nod o sicrhau cynrychiolaeth well o bobl ifanc.

**Cynnig:** bod y **Grŵp Gwrando i Bobl Ifanc** yn gweithredu fel Panel Arbenigol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ar gyfer Pobl Ifanc. Gall hyn ddigwydd ar ôl i'r Strategaeth gael ei lansio.

### 3. Pobl o aelwydydd incwm isel

Er bod y rhan fwyaf o bartneriaethau bwyd lleol yn ymgysylltu â phobl sy'n profi diffyg diogeledd bwyd ac allgáu ariannol ac yn eu cefnogi, nid ydym eto wedi creu cysylltiad na chydweithrediad strategol ar lefel rhaglen gyda chynghrair o sefydliadau sy'n gweithio ac yn cynrychioli pobl sydd â'r profiad bywyd hwn.

**Cynnig:** bod Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn sefydlu grŵp newydd o sefydliadau i fod yn 'gyfeillion beirniadol' a all arwain ein dull o gynyddu'r gynrychiolaeth o bobl sydd

â phrofiad bywyd o dlodi bwyd ac ansicrwydd ariannol.  Gall hyn ddigwydd yn 2026/7 a gallai gynnwys:

- Feeding Britain
- Ymddiriedolaeth Trussell
- Cyrff eraill i ymchwilio iddynt

### 4. Ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd (gan gynnwys pysgodfeydd)

Yn yr un modd, mae gan lawer o bartneriaethau bwyd gysylltiadau â ffermwyr a mentrau bwyd bach lleol, yn aml yn seiliedig ar gysylltiadau personol ag aelodau o bartneriaethau bwyd a mentrau lleol penodol.  Mae'n bwysig bod Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn archwilio ffyrdd o wella cynrychiolaeth cynhyrchwyr bwyd a gwneud y gynrychiolaeth yn fwy ystyrlon a sut y gall ein gwaith ar lefel strategol gynnwys llais y grwpiau pwysig hyn.

**Cynnig:** bod Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yn sefydlu grŵp newydd o sefydliadau i fod yn 'gyfeillion beirniadol' a all arwain ein dull o gynyddu cynrychiolaeth o ffermwyr a busnesau bwyd yn ein gwaith. Gall hyn ddigwydd yn 2026/7 a gallai gynnwys:

- Real Farming Trust
- Cynghrair Gweithwyr y Tir
- Cyrff eraill i ymchwilio iddynt

Er bod y ffocws craidd ar y **4 grŵp/cymuned allweddol** hyn, mae angen i Lleoedd Bwyd Cynaliadwy hefyd gydnabod grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a nodwyd gan bartneriaethau bwyd lleol. Lle y bo'n briodol ac yn berthnasol, dylai Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ymchwilio i ffyrdd o gefnogi partneriaethau bwyd lleol i sefydlu eu paneli lleol eu hunain i gefnogi pobl i ymgysylltu a chyfranogi yn eu partneriaethau bwyd.  Y grwpiau hyn yw:

- Pobl ag **anabledd corfforol**
- Y cymunedau **LHDTC+**
- Cymunedau **mudwyr**
- **Pobl hŷn**
- Pobl sy'n **wael eu hiechyd**

**Disgwyliad:**

Bydd y manylion ar gyfer cynnull, trefnu a hwyluso'r Paneli Arbenigol yn cael eu trafod mewn sesiynau cynllunio rhagarweiniol ar gyfer pob panel.  Y disgwyliad yw y bydd y paneli'n cyfarfod ar-lein, fwy na thebyg, bob 6 mis drwy gydol 2026 a 2027 (y ddwy flynedd sy'n weddill o gyllid cyfredol y rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy).

Mae'n debygol y bydd y sesiynau ar ffurf gweithdai cyfranogol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau ar gyfer partneriaethau bwyd lleol ac ar gyfer strategaethau cyffredinol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth ac anghyfiawnder.

## Atodiad 4 – Rhai diffiniadau ymarferol

### Amrywiaeth

Gwahaniaethau o fewn lleoliad penodol, gan gynnwys hil, rhywedd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, a phriodoleddau eraill. Mae amrywiaeth yn fesur meintiol o gynrychiolaeth. (Eating Better)

Caiff amrywiaeth ei ddiffinio'n eang i gynnwys amrywiol elfennau o wahaniaeth dynol, gan gynnwys rhywedd, hil ac ethnigrwydd, ffydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cyfoeth a dosbarth. Mae diffiniadau cynnil o amrywiaeth hefyd yn cydnabod natur groestoriadol hunaniaeth a'r ffyrdd cymhleth a chronnus y mae gwahanol fathau o wahaniaethu (yn seiliedig ar y priodoleddau hyn) yn cyfuno, yn gorgyffwrdd ac yn croestorri. (Cymdeithas Sefydliadau Elusennol)

### Tegwch

Darparu adnoddau a chyfleoedd sydd wedi'u teilwra i anghenion penodol unigolion er mwyn cyflawni canlyniadau teg. Mae'n cydnabod bod gan bobl wahanol amgylchiadau gwahanol ac yn dyrannu'r union adnoddau a chyfleoedd sydd eu hangen i gael canlyniad cyfartal. (Eating Better)

Mae tegwch yn cynnwys hyrwyddo cyfiawnder a chyfle a chanlyniadau cyfartal o fewn y gweithdrefnau, y prosesau a dosbarthiad adnoddau gan sefydliadau neu systemau. Er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch, mae angen dealltwriaeth o achosion sylfaenol neu wir achos gwahaniaethau, ar y pwynt mynediad, ac o ran canlyniadau, o fewn ein cymdeithas. (Cymdeithas Sefydliadau Elusennol)

### Cynhwysiant

Creu amgylchedd lle mae unigolion amrywiol yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a'u gwerthfawrogi, gan sicrhau y gallant gymryd rhan a chyfrannu'n llawn. (Eating Better)

Mae cynhwysiant yn cyfeirio at y graddau y mae unigolion amrywiol yn gallu cymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar weithgaredd, gan gynnwys gwneud penderfyniadau. Er bod grŵp gwirioneddol 'gynhwysol' o reidrwydd yn amrywiol, nid yw bob amser yn wir bod grŵp 'amrywiol' yn 'gynhwysol'. (Cymdeithas Sefydliadau Elusennol)

### Cyfiawnder

Mae cyfiawnder yn dychmygu cymdeithas lle mae unigolion o bob cefndir yn meddu ar urddas, adnoddau, pŵer a dylanwad yn gyfartal i ffynnu i'w llawn botensial.

Mae cyfiawnder bwyd yn fudiad cymdeithasol ac yn set o egwyddorion sy'n cymhwyso persbectif strwythurol a chyfannol i'r system fwyd sy'n ystyried bod mynediad at fwydydd iach, maethlon, a diwylliannol briodol yn hawl ddynol. (Eating Better)

### Cydgynhyrchu

Cydgynhyrchu yw proses lle mae sefydliad neu unigolyn yn cydweithio â phobl sydd â phrofiad bywyd perthnasol drwy'r holl waith, o'r dechrau i'r diwedd, a ble mae perthnasoedd cyfartal â nhw yn cael eu ffurfio a'u cynnal. (Disability Rights UK)